| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **CABINET** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD:** | **17 RHAGFYR 2013** |
| **AELOD/SWYDDOG ARWEINIOL:** | **Y CYNGHORYDD BARBARA SMITH** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:** | **CATRIN ROBERTS, RHEOLWR GWASANAETHAU ADNODDAU DYNOL** |
| **TEITL:** | **CONTRACT ADNEWYDDU MATRICS** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn ymwneud ag adnewyddu'r contract cyfredol (gyda Matrix SCM), drwy fframwaith MSTAR ar gyfer rheoli gweithwyr asiantaeth y Cyngor a thrwy hynny wella rheolaeth, diogelu a gweledydd, yn ogystal â sicrhau arbedion effeithlonrwydd.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Oherwydd gwerth y contract, mae'n ofynnol cael cymeradwyaeth y cabinet i symud ymlaen. Er mwyn cwrdd â'r dyddiad adnewyddu mae angen gwneud penderfyniad erbyn 1 Ionawr 2014

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr aelodau'n cefnogi'r penderfyniad i adnewyddu Contract Matrix drwy fframwaith MSTAR.

## 4. Manylion yr adroddiad

Mae'r Cyngor wedi defnyddio Matrix SCM i reoli'r cyflenwad o weithwyr asiantaeth ers nifer o flynyddoedd. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r contract wedi sicrhau arbedion sylweddol i'r Cyngor drwy fod y cyfraddau'n fwy cystadleuol; trwy fod prosesau mwy effeithlon yn eu lle a thrwy fod gwybodaeth rheoli gwell yn cael ei darparu i gynorthwyo rheoli'r gweithwyr asiantaeth yn effeithiol.

Mae adnewyddu'r contract yn rhan o gytundeb ar y cyd gyda Chyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Cyngor Sir y Fflint yw'r awdurdod arweiniol.

Dros y 12 mis diwethaf, mae gwaith helaeth wedi cael ei wneud gan Susan Kelly, Rheolwr Contractau Asiantaeth a Reolir, ac Arwel Staples, Pennaeth Caffael, i ddynodi fframwaith cydymffurfio i gaffael darparwr gwerthu niwtral. Mae darparwr gwerthu niwtral yn fodel lle nad oes gan ddarparwr y gwasanaeth a reolir (SCM Matrix yn yr achos hwn) unrhyw fuddiant wrth recriwtio'n uniongyrchol neu ddarparu adnoddau i unrhyw un o'r gwasanaethau y mae'n eu rheoli ar ran y cleient. Felly, mae'r sawl sy'n gwerthu yn rhyddhau pob cais am swydd neu wasanaeth i bob asiantaeth gyflenwi gogyfer â'r categori priodol ar yr un pryd drwy'r system gwasanaethau a reolir.

Un fframwaith yw’r fframwaith Gwasanaeth a Reolir i Adnoddau Asiantaeth Dros Dro (MSTAR), sef y fframwaith cenedlaethol ar gyfer darparu gwasanaethau adnoddau asiantaeth dros dro a reolir i awdurdodau lleol, i sefydliadau addysgol ac i sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yn ehangach ledled y Deyrnas Unedig. Cytunwyd ar y cyd mai fframwaith MSTAR yw'r mwyaf addas ar gyfer y tri awdurdod dan sylw, ac y dylid adnewyddu'r contract gyda Matrix SCM trwy’r fframwaith hwn.

Oherwydd gwerth y contract, mae gofyn cael cymeradwyaeth y cabinet.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae hyn yn cyfrannu at flaenoriaeth y Cyngor i foderneiddio'r cyngor er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau i'n cwsmeriaid.

## 6. Beth fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Ni fydd unrhyw gost ychwanegol o ganlyniad i adnewyddu’r contract hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r asesiad a wnaed o effaith y penderfyniad hwn ar gydraddoldeb? Dylid atodi Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fel atodiad i’r adroddiad hwn.

Amherthnasol

## 8. Pa ymgynghori a wnaed gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?

Trafodwyd hyn gyda'r Aelod Arweiniol a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol. Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghori gan mai adnewyddu contract ar gyfer system sydd eisoes yn ei lle sy’n digwydd.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol.

## 10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Nid oes unrhyw risgiau uniongyrchol yn gysylltiedig â’r Contract hwn.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

A.111 Deddf Llywodraeth Leol 1972